

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Cynigion ar gyfer Ardal Gadwraeth  
**Tyddewi**



Canllawiau Cynllunio Atodol  
i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer  
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd 12 Hydref 2011



**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**  

---

**Pembrokeshire Coast  
National Park**

# CYNNIGION AR GYFER ARDAL GADWRAETH TYDDEWI

CYNNWYS	RHIF Y DUDALEN
RHAGAIR . . . . .	3
1. Cyflwyniad . . . . .	5
2. Crynodeb o'r Datganiad o Gymeriad . . . . .	8
3. Dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau . . . . .	13
4. Dadansoddiad o'r Diben, Amcanion, Strategaeth a Themâu. . . . .	18
5. Adnoddau . . . . .	21
6. Tir y Cyhoedd . . . . .	24
7. Rheoli Traffig . . . . .	26
8. Prosiectau Cymunedol . . . . .	27
9. Ymwybyddiaeth. . . . .	28
10. Datblygiad . . . . .	29
11. Rheolaeth . . . . .	30
12. Astudiaeth ac Ymchwil . . . . .	31
13. Ffiniau . . . . .	32
14. Y Camau Nesaf . . . . .	34
15. Rhaglen/Cynllun Gweithredu . . . . .	35
16. Talfyriadau a Ddefnyddiwyd . . . . .	36

Atodod A: Allwedd i Fap Nodweddion Ardal Gadwraeth Tyddewi

Hydref 2011



## **RHAGAIR**

Dyma fwrriad y ddogfen hon:

Yn Adran 1, cyflwyno dibenion a chefnidir cyfreithiol a threfniadol y Ddogfen Gynigion a'r Datganiad o Gymeriad.

Mae Adran 2 yn grynodeb o gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Mae Adran 3 yn grynodeb o'r prif faterion dan sylw, ar ffurf dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau, a gwblhawyd gan y gweithgor, gan danlinellu cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau Dinbych-y-pysgod.

Mae Adran 4 yn nodi'r egwyddorion gwarchod a gwella sylfaenol trwy gyfrwng dadansoddiad o'r diben, amcanion, strategaeth a themâu sy'n gosod ymagwedd gydlynol wedi'i strwythuro at warchod a gwella cymeriad Dinbych-y-pysgod mewn hierarchaeth glir, o'r athroniaethau sylfaenol i fanylion gweithredu.

Mae Adrannau 5 i 12 (gan gynnwys Adran 5 ac Adran 12) yn datblygu amrywiaeth o gynigion integredig sy'n anelu at roi sylw i'r materion a godwyd yn y dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau, yn unol â'r egwyddorion a sefydlwyd yn y dadansoddiad o ddiben, amcanion, strategaeth a themâu.

Mae Adran 13 yn ystyried materion yn ymwneud â ffiniau.

Mae Adrannau 14 a 15 yn archwilio trosglwyddiad.


# ARDAL GADWRAETH Tyddewi

FFIN YR ARDAL GADWRAETH

Nid ydyw i raddfa

Dynodwyd 1977

Ymestynnwyd 1995



# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd Ardaloedd Cadwraeth wedi dod yn fwy a mwy ymwybodol o'r ffaith y gallai ardaloedd cyfan, yn ogystal ag adeiladau, coed a nodweddion unigol, fod o ddiddordeb ac o werth. Cynigiwyd Ardaloedd Cadwraeth am y tro cyntaf o dan Ddeddf Amwynderau Dinesig 1967 ac erbyn hyn maen nhw'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf Cynllunio, Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990. O dan Ddeddf 1990 mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi Ardaloedd Cadwraeth, (Adran 69.2) sy'n "ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol gwarchod neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad", (Adran 69.1).

1.2 Yn dilyn ymgynghoriad helaeth, dynodwyd craidd hanesyddol Tyddewi yn Ardal Gadwraeth yn 1977 (yn dilyn ymgynghoriad pellach, ymestynnwyd ffin yr Ardal Gadwraeth yn 1995).

1.3 Unwaith y cânt eu dynodi, mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu Cynigion yn ffurfiol ar gyfer gwarchod a gwella Ardaloedd Cadwraeth (Adran 71).

1.4 Fe wnaeth APCAP y gwaith hwn mewn dau gam gwahanol, y naill a'r llall yn golygu ymgynghori'n helaeth â'r gymuned:

i) Paratoi datganiad o'r cymeriad presennol – Yn 2002 drafftwyd Datganiad o Gymeriad gan weithgor a enwebwyd gan Gyngor Dinas Tyddewi ynghyd â Swyddogion o APCAP. Yn dilyn ymgynghoriadau helaeth, arddangosfa gyhoeddus, a chymeradwyaeth y Cyngor Dinas, cymeradwywyd Datganiad o Gymeriad yr Ardal Gadwraeth ar gyfer Tyddewi yn ffurfiol gan Bwyllgor Rheoli Datblygiad y Parc Cenedlaethol yn eu cyfarfod ar 16 Medi 2002 (Dylid darllen yr adroddiad hwn mewn cysylltiad â Datganiad o Gymeriad Ardal Gadwraeth Tyddewi a cheir crynodeb o'r Datganiad o Gymeriad yn adran 2.0).

ii) Roedd ail gam y gwaith yn golygu paratoi Dogfen Gynigion yn nodi sut mae modd gwarchod a gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Paratowyd Dogfen Gynigion ddrafft gan y gweithgor ac roedd yn rhan o arddangosfa gyhoeddus leol. Yn ystod yr arddangosfa, gwahoddwyd sylwadau ac awgrymiadau ar y ddogfen. Dosbarthwyd y ddogfen ddrafft yn eang, ac roedd yna wahoddiad i amrywiaeth o bartneriaid a oedd â diddordeb anfon eu sylwadau.

1.5 Wedi derbyn sylwadau, fe gafodd y drafft a'r crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law, ystyriaeth gan Gyngor Dinas Tyddewi, ac yna fe'i cymeradwywyd gan APCAP.

1.6 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi mabwysiadu'r Ddogfen Gynigion fel Canllaw Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) APCAP. Fe fydd y Datganiad yn gosod y cyd-destun ar gyfer ystyried effaith cynigion i ddatblygu ar gymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Fe fydd y Ddogfen Gynigion yn cefnogi polisiâu'r CDU ac fe fydd yn ystyriaeth gynllunio bwysig wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth Tyddewi. Mae Polisi 5 'Canolfan Leol Tyddewi' yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer defnydd tir Tyddewi.

1.7 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio nodi Cynigion i ddangos sut mae modd gwarchod a gwella cymeriad Ardal Gadwraeth Tyddewi.



CROESAW I DY DDEWI c.1905-6  
WELCOME TO ST DAVIDS c.1905-6





**HIGH STREET, SILVER JUBILEE, 1935**  
**HEOL FAWR, JIWBILI ARIAN, 1935**



**FARMERS ARMS, GOAT STREET, ST DAVIDS c.1910**  
**FARMERS ARMS, HEOL YR AFR, TYDDEWI c 1910**



**NUN STREET - OLD CATHEDRAL TERRACE ON LEFT**  
**HEOL NON - HEN DERAS YR EGLWYS GADEIRIOL AR Y CHWITH**



**CARNIVAL PROCESSION - NUN STREET**  
**GORYMDAITH Y CARNIFAL - HEOL NON**



# Tyddewi

Ardal Gadwraeth: Dynodiadau Cadwraeth Statudol



Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro

**Tyddewi**  
Ardal Gadwraeth  
Dynodwyd 1977  
Ymestynnwyd 1995

## Allwedd



- Fin yr Ardal Gadwraeth
- Adleidiad Rhestrailig
- Heneb Gadwraetholig
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Ardal Gadwraeth Arbennig
- Hawli Tramwy Cyhoeddus/Llywyr yr Arfordir



## Graddfa



Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro



## 2 CRYNODEB O GYMERIAD

Dylid darllen y crynodeb hwn law yn llaw gyda Datganiad Ardal Gadwraeth Tyddewi (Medi 2002). Mae'r Awdurdod hefyd wedi mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Aseidiadau Cymeriad Tirlun (Mehefin 2011). Mae Ardal Cadwraeth Tyddewi o fewn LCA17 'Tyddewi' gydag ardal fechan yn ymestyn i LCA18 'Pentir Tyddewi'.

### 2.1 MAE CYMERIAD ARDAL GADWRAETH TYDDEWI YN BWYSIG:

- i ansawdd bywyd lleol
- fel atyniad i ymwelwyr
- fel tystiolaeth gyffyrddadwy o etifeddiaeth hanesyddol a phensaernïol gyfoethog
- i sicrhau hyfywedd a bywiogrwydd ei chraidd hanesyddol
- wrth ddatblygu synnwyr o berchnogaeth, balchder dinesig a hunaniaeth
- wrth annog dyfodol cynaliadwy sy'n cynnwys hyrwyddo sgiliau a chynnyrch lleol
- wrth integreiddio'r celfyddydau, treftadaeth, diwydiannau lleol a chynllun trefol
- wrth hyrwyddo marchnata a thwristiaeth ddiwylliannol

### 2.2 TARDDIAD A DATBLYGIAD

- Mae anheddiad Tyddewi yn dyddio o'r Oesoedd Tywyll, ac mae yna olion helaeth o gynhanes yn yr ardal o hyd. Roedd Tyddewi'n ganolfan Gristnogol gynnar flaenllaw, yn dilyn sefydliad cymuned fynachaidd yn hwyr yn y 6G gan Ddewi Sant.
- Daeth safle isel Cysegrfa Dewi yn safle i'r Eglwys Gadeiriol Normanaidd a gysegrwyd yn 1131 ac a ailadeiladwyd yn helaeth wedi 1182. Daeth rhan fawr o ddyffryn Alun o'i chwmpas i fod yn Glos yr Eglwys Gadeiriol, gyda wal y Clos o amgylch.
- Fe dyfodd y Ddinas ganoloesol i'r de, ar y llwyfandir tu allan i wal y Ddinas, gyda'r groes bregethu yn ganolbwynt.
- Yn ystod y cyfnod ôl-ganoloesol, fe dyfodd y Ddinas yn araf ar hyd Catherine Street, Heol y Bryn ac yn ddiweddarach ar hyd Heol Non a Heol Newydd.
- Yn ystod y 18G hwyr a'r 19G gwelwyd ailadeiladu sylweddol, ac mae llawer o'r Ddinas yn dyddio o'r cyfnod hwn.

### 2.3 CYD-DESTUN FFISEGOL, DYFODFEYDD A GOLYGFYDD

Penrhyn garw ac agored i'r gogledd-orllewin o lwyfandir arfordirol Sir Benfro. Mae dyffryn cysgodol Alun ble gorwedd yr Eglwys Gadeiriol a'r Clos yn gyferbyniad

llwyr i'r llwyfandir, y clogwyni agored a'r brigiadau caregog anghysbell trawiadol.

Mae nifer o ddyfodfeydd pwysig wedi eu nodi yn y Datganiad o Gymeriad, pob un yn cynnig golygfeydd o bell o'r Eglwys Gadeiriol neu'r Ddinas, yn gyferbyniad unigryw i'r lonydd gwledig anghysbell â'u cloddiau nodweddiadol dan gysgod yr eithin a'r ddraenen wen.

### 2.4 Y TREFLUN

Mae'r Datganiad o Gymeriad yn rhannu'r Ardal Gadwraeth yn ddau barth:-

#### PARTH 1 – Y Ddinas

##### Arwyddocâd Archeolegol â'r Potensial

- Er ei bod wedi'i hailadeiladu lawer, mae'r Ddinas wedi cadw ei phatrwm strydoedd canoloesol, a'r gosodiad lleiniau bwrgais, yn gyflawn i raddau helaeth.
- Mae'r prif olion canoloesol yn cynnwys Croes y Ddinas o'r 14G (sy'n ganolog i'r farchnadfa drionglog wreiddiol) a'r gromgell adfeiliedig ger Milton Hall yn Heol Non.



##### Cymeriad Pensaernïol a Hanesyddol yr Adeiladau

- Domestig yn bennaf, rhai wedi eu trawsnewid at ddefnydd masnachol. Rhai safleoedd masnachol o'r 19G hwyr, wedi eu hadeiladu'n arbennig at y diben, sy'n edrych yn blaen ac yn syml i raddau helaeth.
- Strydlun o'r 19G yn bennaf, "Dinas o fythynnod". Mwyafrif yr adeiladau o gymeriad brodorol sy'n dibynnu'r un faint ar gyfrannedd, defnyddiau a manylion cadarn a syml ac "arddull" bensaernïol.
- Yn gyffredinol, strydlun deulawr, gydag enghreifftiau tri llawr prin hwnt ac yma (e.e. Bwyty Preifat Pilgrims, Royal Terrace). Terasau byr neu barau o adeiladau yn bennaf, naill ai'n agor arno i'r palmant neu du ôl i flaengyrtiau. Rhai adeiladau eraill (e.e. Ty'r Llys (Court House), 20 Heol Fawr) wedi'u grwpio o amgylch cyrtiau bach.
- Rhai adeiladau ffurfiol sy'n cyferbynnu (e.e. Neuadd y Ddinas a'r Capeli), rhai tai mwy o faint (e.e. Menai,

Lawn Villa a'r Grove) wedi eu gosod mewn gerddi.

- Ardal "fasnachol" hanesyddol o amgylch Heol yr Afr a Catherine Street yn dal i fod yn amlwg: tri warws amlwg o'r 18-19G.
- Nid yw'r bylchau rhwng adeiladau yn tarfu rhyw lawer ar dalcenni'r adeiladau sydd bron yn ddi-dor, ac yn aml ceir golygfeydd gwledig hyfryd, neu gipolwg o adeiladau ategol.
- Hwnt ac yma ar hyd y strydlun ceir rhai adeiladau o'r 20G, sydd, gan fwyaf, yn parchu'r treflun o ran graddfa er nad bob tro o ran manylion/defnyddiau.

### Defnyddiau Adeiladu Cyffredin a Thraddodiadol

- Waliau- Yn draddodiadol o gerrig lleol - tywodfaen gwyrdd, carreg laid frown, tyffiau folcanig a charreg borffor Caerbwdi. Peth briciau coch/melyn o'r 19G hwyr ar gyfer pennau ffenestri, simneiau ayb.
- Hyd yn hwyrach yn y 19G roedd mwyafrif yr adeiladau'n cael eu golchi gyda lliw a rhai adeiladau mwy o faint yn cael eu rendro (e.e. Menai). Yn wreiddiol, defnydd helaeth o'r dechneg o grogi llechi mewn rhesi sy'n gorgyffwrdd ond, erbyn hyn, nid oes llawer wedi goroesi.
- Mae llawer o adeiladau wedi cael eu rendr neu eu lliw wedi ei dynnu i ddadorchuddio'r gwaith carreg, ac nid yw hyn yn briodol.
- Defnydd o waith carreg noeth yn hwyr yn y 19G (e.e. Bythynnod Rheidol, Dyfri ac Ystwyth (1885) a Theras Trehenlliw), neu rendr llyfn.
- Llawer o adeiladau tu ôl blaengyrtiau bach, yn aml gyda rheiliau haearn bach (e.e. Cathedral Villas, Royal Terrace a Chapel Tabernacl)
- Toeon - yn draddodiadol o lechi lleol Abereiddi, yn aml wedi eu growtio drostynt gyda chalch neu sment gyda darnau atgyfnerthu o weiren bigog wedi'i briddgalchu. Nifer wedi eu gwarchod. Defnydd o lechi Gogledd Cymru yn hwyrach yn y 19G. Simneiau o rwbel neu friciau coch.
- Drysau/Ffenestri- Mwyafrif yr adeiladau â ffenestri codi o bren sy'n llithro'n fertigol, a'r rheiny wedi'u peintio. Rhai ffenestri crwn ar oleddf. Drysau pren, yn gyffredinol o gynllun cadarn syml gyda phaneli.

### Manylion Lleol Nodweddiadol


- Waliau: Mae gan Menai stwco wedi'i erwino, ac mae hyn yn anarferol. Fel arall, rendro wedi'i sgrifellu i ddynwared gwaith blociau fel arfer. Enghreifftiau prin o fanylion diweddarach fel gro chwipio (pebble dash) (Bwyty Pilgrim's) a theils crog o glai (42 Heol Fawr). Nid yw llechi crog, a oedd yn gyffredin ar un adeg, prin wedi goroesi.
- Toeon - manylion syml gan fwyaf, gyda bondoeau plaen a manylion ar yr ymylon, ac eithrio estyll tywydd addurniadol Fictoriaidd hwyrach. Gogwydd, yn gyffredinol, o 40°; gyda llechi porffor/llwyd

wedi eu gosod drostynt a theils crib ag uniadau bôn glas/du neu goch.

- Drysau/Ffenestri: Ffenestri linter gyda rhai pyrth ffurfiol mewn tai mwy crand (e.e. Menai, the Grove a Brecon House). Yn gyffredinol, mae gan y drysau baneli ac mae yna rai enghreifftiau sydd â manylion anarferol. Ffenestri o gynllun ffenestri codi sy'n llithro'n fertigol, cynlluniau o gyn canol y 19G â 12-panel, mwyafrif y ffenestri diweddarach â phatrwm ymylol neu groesffurf, ond patrymau cynharach hefyd yn parhau i gael eu defnyddio.

### Cymeriad a Pherthynas Gofodau o fewn yr Ardal

Mae strydlun y Ddinas yn weddol ddwys, wedi'i ailddatblygu o'r 18G hwyr ac yn enwedig trwy'r 19G. Roedd yr ailddatblygu'n weddol dameidiog ac yn cynnwys tai unigol neu dai pâr a therasau byr, gan adael llawer o ofodau.



### Strydlun

- Gorffeniad tarmacadam safonol i'r heolydd. Palmentydd o bafin concrit safonol neu darmac. Nid oes unrhyw orffeniadau hanesyddol gwreiddiol wedi goroesi.
- Goleuadau a dodrefn stryd o'r math iwtilitaraidd safonol. Arwyddion traddodiadol newydd wedi eu cynllunio'n briodol i'r strydoedd.
- Polion a cheblau uwchben yn arbennig o amlwg yn Heol Fawr, Heol yr Afr, Priskilly Terrace, Heol Newydd, Y Cwswll a Heol Non, gan ddifetha golygfeydd gwledig o bell

### Gofodau Agored Pwysig

Mae'r gofodau agored pwysig yn cynnwys:-

- Sgwâr y Groes, gan gynnwys ardal y ffynnon, y groes a'r ardd goffa
- Maes parcio'r Popls
- Y tir rhwng maes parcio'r Popls a'r Cwswll

### Coed

Mae'r coed yn gymharol brin. Rhai grwpiau deilgoll da, sy'n bwysig i'r strydlun e.e...:-

- O amgylch Gwesty'r Grove
- O amgylch y Ganolfan Wybodaeth i Ymwelwyr
- O flaen Old Cross Hotel
- O flaen Lawn Villa a 36 Heol Newydd
- Wrth gyffordd Heol Non a Peter's Lane

- Yn Heol y Bryn (wrth gefn 2-8 Heol Fawr)
- Cefn 12 Catherine Street ac oddi ar Pigsfoot Row
- Gyferbyn â 18 Catherine Street

## PARTH 2 – Clos yr Eglwys Gadeiriol a Dyffryn Alun

### Arwyddocâd Archeolegol â'r Potensial

- Yng Nghlos yr Eglwys Gadeiriol mae yna 11 Heneb Gofrestredig ac mae'r clos ei hun o bwysigrwydd archeolegol rhyngwladol.
- Mae'r prif olion archeolegol yn cynnwys yr Eglwys Gadeiriol, Llys yr Esgob, Porth-y-tŵr, Waliau'r Clos, Neuadd y Santes Fair a Neuadd y Clwysty.
- Mae'r sylfeini a'r nodweddion canoloesol helaeth yn cynnwys pyllau pysgod, dyfrffosydd a hen berllannau.



### Cymeriad Pensaernïol a Hanesyddol Adeiladau

- Mae'r adeiladau eiconig blaenllaw'n cynnwys yr Eglwys Gadeiriol ac olion Llys yr Esgob.
- Mae'r adeiladau sydd wedi goroesi yn dai clerigwyr o'r 19G yn bennaf (e.e. y Deondy, yr Archddiaconiaeth), adeiladau datgysylltiedig mewn gerddi mawr.
- Tai clerigwyr – gan fwyaf yn rhai deulawr 'moesgar' cymesur.
- Caeadleoedd a waliau gerddi amlwg o gerrig rwbel lleol.

### Defnyddiau Adeiladu Cyffredin a Thraddodiadol

- Yr Eglwys Gadeiriol a'r Llys wedi'u hadeiladu o dywodfaen lleol â gwawr o wyrdd, melyn a phorffor dwfn: tystiolaeth helaeth o rendro calch canoloesol.
- Mwyafrif tai'r clerigwyr â phlastr garw neu stwco, (wedi eu tynnu'n amhriodol oddi ar yr Archddiaconiaeth), rhai cerrig nadd.
- Yn gyffredinol, drysau a ffenestri â 12 panel, ffenestri codi fertigol o bren wedi'u peintio gyda rhai casmentydd; toeon o lechi glas/porffor Gogledd Cymru gan fwyaf, gyda theils crib glas/du gydag uniadau bôn. Simneiau o gyfuniad o gerrig (wedi eu rendro, yn gyffredinol) neu friciau.

### Manylion Lleol Nodweddiadol

- Er eu bod o gymeriad syml o hyd, mae gan dai'r clerigwyr bensaernïaeth mwy boneddigaidd gyda manylion Georgaidd diweddarach nodweddiadol, e.e. pyrth clasurol a thoeon talcennog ar fondoeau dwfn: y Deondy a'r Ganoniaeth â manylion neo-Duduraidd syml.

### Cymeriad a Pherthynas Gofodau o fewn yr Ardal

- Mewn cyferbyniad â'r Ddinas, mae gan y Clos a Dyffryn Alun gymeriad gwledig, gyda gerddi, caeagleoedd a phadogau ar hyd glannau'r afon, coed deilgoll aeddfed ar eu hymylon a thai clerigwyr hwnt ac yma.
- Yn hanesyddol, ni chafwyd unrhyw ddatblygiadau i'r de orllewin, y gorllewin na'r gogledd o'r Clos, ac felly mae'r ardal o amgylch yr Eglwys Gadeiriol yn unigryw o wledig.
- Mae'r Eglwys Gadeiriol yng nghanol y Clos, ac mae'n eistedd mewn mynwent fawr ar lethr, gyda'r Llys a Neuadd y Santes Fair gerllaw.



### Strydlun

- Mwyafrif yr heolydd â gorffeniad tarmacadam safonol, dim palmentydd ffurfiol
- Rhai hen lwybrau cobl/cerrig onglog (e.e. Pen-y-ffos) a nifer o heolydd gydag ymylon cobl.
- Ychydig bach o ddodrefn stryd
- Safonau golau Fictoraidd wedi eu dynwared o fewn y Clos.
- Mwyafrif y ceblau o dan y ddaear.

### Gofodau Agored Pwysig

- Llauer o ofodau agored o fewn y Clos, y cyfan yn bwysig iawn o ran hanes, archeoleg, bioamrywiaeth ac estheteg.
- Tu hwnt i'r Clos, ac yn hanfodol i'w leoliad, mae'r ddol afon i'r gogledd, gyda choetir bob ochr a gorlffdir corsïog yr Alun i'r gorllewin.

## Coed

O bwysigrwydd eithriadol i osodiad yr Eglwys Gadeiriol a'r Clos, o lethrau coediog rhan uchaf y dyffryn, i'r grwpiau pwysig llai canlynol:-


- Ochr ogleddol Perllan Chanters ac un goeden i'r de ddwyrain
- Gogledd ddwyrain o'r Deondy
- Cornel de orllewinol mynwent yr eglwys
- Tu allan i Pen-y-ffos
- Gardd flaen Brecon House a'r Archddiaconiaeth
- Ymylon yr heol o'r Llys i'r Bont
- Grwpiau unigol yn y ddôl i'r gogledd o wal y Clos
- Ymylon yr heol i Felin Dan-y-rhiw
- Fringing the road to Melin Dan-y-rhiw

### 2.4 HUNANIAETH

Mae 'cymeriad' Tyddewi'n cynnwys mwy na'r dirwedd, yr adeiladau a'r strwythurau – mae wedi'i lunio'n sylfaenol gan ei phobl. Mae straeon, traddodiadau a digwyddiadau oll yn allweddol pwysig i ddeall y ddinas a'i gwarchod. Mae'r Datganiad o Gymeriad yn cynnwys adran ar wahân ar Hunaniaeth, sy'n amlinellu'r cyfraniadau hyn.

### 2.5 BIOAMRYWIAETH

Mae bioamrywiaeth Tyddewi'n bwysig yn Ewropeaidd, yn genedlaethol ac yn lleol ac mae wedi'i nodi'n fanwl yn y Datganiad o Gymeriad. Mae Penrhyn Tyddewi, Ynys Dewi a'r tir comin tua'r tir wedi'u cydnabod fel tir gwarchod natur sydd o bwysigrwydd Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol ac maen nhw'n cyfrannu'n sylweddol at y fioamrywiaeth. Mae yna Gynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau mewn lle o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae hen adeiladau a waliau cerrig yn adnoddau bioamrywiaeth pwysig ac yn cynnal blodau cen cyfoethog a rhedyn sydd wrth eu bodd gyda chalc. Mae gerddi preifat hefyd yn cynnig cysgod a ffynonellau bwyd i bryfed, adar ac ystlumod ac mae'n bosib fod yma rywogaethau amrodorol diddorol. Mae'n bwysig cydnabod y dylai rheolaeth cynefinoedd potensial/cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli ystyried gofynion cadwraeth rhywogaethau dan amddiffyniad (e.e. ystlumod, tylluanod a chennau). Mae bron pob ystum Prydeinig yn dibynnu ar strwythurau a wnaed gan bobl ar ryw adeg yn eu cylch oes blynyddol (e.e. adeiladau a waliau) oherwydd dinistriwyd y rhan fwyaf o safleoedd clwydo naturiol neu mae yna rywbeth neu rywun yn tarfu arnynt. Mae pob math o ystum a'u clwydi wedi eu hamddiffyn gan ddeddfwriaeth genedlaethol ac Ewropeaidd, dimensiwn hanfodol bwysig i fioamrywiaeth yn yr amgylchedd trefol neu led-naturiol.




## Tyddewi

Ardal Gadwraeth  
Dynodwyd 1977  
Ymestynnwyd 1995

- 1** O'r B4583 ger Penarthur. Ceilir gweld y ddinas ar orwel isel gyda Chapel Tabernacl yn amlwg; pinnacul tŷr yr Eglwys Gadeiriol i'w gweld
- 2** O Feidr Chweth-ew. Panorama da o'r ddinas, y flynwnt, Ygol Bro Dewi, y Tŷ Crwn, Capel Ebeaser, yr Eglwys Gadeiriol, Wapool Court
- 3** O'r lôn wledig rhwng Penarthur a Phenhiw. Golygfeydd o'r ddinas yn y pellter uwchben tŷr yr Eglwys Gadeiriol, gyda meindwr Tabernacl yn gopa dramatig. Cyferbyniad unigryw rhwng tirweidd y ddinas a'r adyresia wledig iawn
- 4** O'r lôn wledig rhwng Pen-porth-gwyn a Phenlan. Golygfeydd da drws Glas yr Eglwys Gadeiriol yn dangos yr Eglwys Gadeiriol a'r Llys, gyda'r ddinas ar y gorwel a'r tŷr chapel yn dominyddu
- 5** Y'r gogledd o St Norŷ. Lôn wledig gyda pherthi nodweddiadol. Stryd Fawr i'w gweld i'r gogledd-ddwyrain; golygfeydd da tuag at Gam Llidi a Phenberti
- 6** Y'r gogledd-ddwyrain o Borthlais. Lôn wledig, golygfeydd tuag at Lower Moor gyda golygfa anarferol o dŷr yr Eglwys Gadeiriol yn codi uwchben y gorwel
- 7** Y'r gogledd-ddwyrain o Glegyr Boia. Lôn wledig gyda pherthi, golygfeydd yn dangos mwyrthfry y ddinas gyda'r Eglwys Gadeiriol yn y blaendir a Tabernacl ar y gorwel
- 8** Y'r Dwyrain o Rhosson. Rhosdir heleth gyda Chiegr Boia i'r de. Golygfeydd o bell o'r ddinas gyda tŷr yr Eglwys Gadeiriol a Fflem Pentlan
- 9** Golygfa o gyffordd yr heol ydd i Dregrinnis a Phorhtstinian. Golygfeydd da o ffrwy gorllewinol Siniar. Golygfeydd da o ffrwy gorllewinol yr Eglwys Gadeiriol yn codi uwchben y coed gyda'r ddinas yn gefndir.

**Graddfa** 0 300 600 m

**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**



### **3 DADANSODDIAD O GRYFDERAU, GWENDIDAU, CYFLEOEDD A BYGYTHIADAU TYDDEWI**

Ar sail y 'Datganiad o Gymeriad' mae'r gweithgor wedi nodi, ym marn y gweithgor, beth yw prif

**Gryfderau**

**Gwendidau**

**Cyfleoedd**

**Bygythiadau Ardal Gadwraeth Tyddewi**

Mae'n rhaid sicrhau mai'r nod yw adeiladu ar gryfderau a bachu cyfleoedd tra ar yr un pryd yn trawsnewid gwendidau yn gryfderau a bygythiadau yn gyfleoedd.

Datblygwyd y dadansoddiad hwn o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau gan y gweithgor. Mae'n cynnwys sawl eitem sy'n disgyn tu allan i ddibenion a sgôp gofodol ymarfer y Cynigion ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Gellir mynd ar drywydd y cyfoeth hwn o ddefnyddiau, cyfleoedd eraill ayb. (a ddangosir gyda seren yn y rhestr ganlynol) trwy sianelau priodol eraill.

Nid yw llawer o'r materion sydd yn y Dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yn rhai sy'n arbennig i'r Ardal Gadwraeth ei hun: mae llawer yn ymwneud â'r ardal yn gyffredinol neu Sir Benfro yn ei chyfanrwydd.

#### **1.0 CRYFDERAU**

##### **1.1 Cyd-destun tirwedd trawiadol**

Tirwedd wedi'i chydabod yn genedlaethol (Cofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol yng Nghymru, Cadw), Dynodiad Parc Cenedlaethol/Ardal Gadwraeth

##### **1.2 Statws Dinas**

Pwysigrwydd Cenedlaethol (Dinas leiaf Prydain)

##### **1.3 Ecclesiastical Heritage**

Pwysigrwydd rhyngwladol (canolfan bererindodau hanesyddol), Eglwys Gadeiriol a Chlos canoloesol  
Eglwys Gadeiriol (rôl leol, daleithiol, esgobaethol, cenedlaethol a rhyngwladol)  
Darperir ar gyfer anghenion crefyddol ac ysbrydol eraill

##### **1.4 Pwysigrwydd Archeolegol a Hanesyddol**

115 Adeilad Rhestredig ac 11 Heneb  
Gofrestredig o fewn yr Ardal Gadwraeth  
210 Adeilad Rhestredig a 29 Heneb

Gofrestredig o fewn Ardal y Cyngor Dinas Nifer o henebion cynhanesyddol a safleoedd canoloesol yn yr ardal o amgylch  
Yr ardal o amgylch yn gyfoeth o dreftadaeth fasnachol, ddiwydiannol, amaethyddol a morol  
Safleoedd a nodweddion archeolegol / hanesyddol heb eu dynodi

##### **1.5 Pwysigrwydd pensaernïol**

Palet cryf o ddefnyddiau a ffurfiau, wedi eu cadw'n dda  
Treflun brodorol unigryw  
Adeiladau 'eiconig' o bwysigrwydd eithriadol

##### **1.6 Cadwraeth natur a bioamrywiaeth o bwysigrwydd Ewropeaidd, Cenedlaethol a lleol**

Dynodiadau'n cynnwys yACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) AWA (Ardal Warchodaeth Arbennig), SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) GNG (Gwarchodfa Natur Genedlaethol)  
Amrywiaeth bwysig o gynefinoedd a rhywogaethau (yr Eglwys Gadeiriol, y Llys, Dyffryn Alun, dolydd, tir comin, gerddi a waliau ac adeiladau o gerrig).

##### **1.7 Diwylliant a chwedloniaeth gyfoethog**

Hanes hynafol a modern wedi'i ddogfennu, o bwysigrwydd lleol a rhyngwladol.

##### **1.8 "Balchder yn ein bro"**

73% o eiddo mewn cyflwr da

##### **1.9 Hunaniaeth gref a "Naws Unigryw am Le"**

Ardaloedd tawel sy'n addas i hel meddyliau  
Dyffryn cysgodol gyda choed a d r sy'n rhedeg, yn cyferbynnu gyda'r penrhyn agored o amgylch  
Lliwiau meddal yr amgylchedd adeiledig  
Ymdeimlad diamser anheddiad hynafol

##### **1.10 Cyrchfan bwysig i dwristiaid, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol**

Incwm o dwristiaeth  
Lleoliad poblogaidd i bererinion modern, ymwelwyr a phobl leol  
Amrywiaeth o atyniadau, gweithgareddau a digwyddiadau o safon

##### **1.11 Hygyrchedd**

Rhwydwaith heolydd yr ardal wedi'i wella  
Gwell cyfleusterau parcio cyfnod hir ar ymyl canol y Ddinas  
Parcio a Theithio; Crwydrwr Celtaidd, Llwybr Beicio Cenedlaethol/Llwybr Cenedlaethol/Hawliau Cyhoeddus a llwybrau hanesyddol eraill a menter "Ardal Lonydd Tawel"

- 1.12 Cynlluniau gwella a phrosiectau cymunedol sydd eisoes yn bodoli, a rhai a gynigir**  
Cynllun Gwella Clos yr Eglwys Gadeiriol  
Goleuadau Sgwâr y Groes  
Arwyddion Stryd  
Oriol Tirlun Genedlaethol  
Cynnig i fod yn Ddinas Gynaliadwy Gyntaf  
Prosiect Clwystai
- 1.13 Amrywiaeth bwysig o siopau, gwasanaethau ac amwynderau**  
Y gallu i fodloni anghenion lleol  
Neuadd y Ddinas yn hygyrch ac yn cael defnydd da  
Canolfan alw-i-mewn lwyddiannus  
Cynlluniau i gyflwyno seilwaith TG/ Band  
Llydan ar gyfer y gymuned  
Cyfleusterau ar gyfer addysgu ieuencid a darparu gwasanaethau ieuchyd
- 1.14 Ysbryd cymunedol egniol**  
Nifer o glybiau a chymdeithasau'n cael cefnogaeth dda  
Clos yr Eglwys Gadeiriol yn cadw'i hunaniaeth eglwysig  
Cyngor Dinas gweithgar
- 2.0 GWENDIDAU**
- 2.1 Economi/Adnoddau**  
Diffyg cyfleoedd cyflogaeth\*
- 2.2 Economi lleol bregus**  
Canfyddiad fod y Seilwaith E-fasnach/TG yn wael\*  
Prinder tai fforddiadwy / lleihad yn y stoc dai cymdeithasol\*  
Pobl ifanc yn allfudo / pobl oedrannus yn mewnfudo \*  
Newidiadau mewn patrymau a strwythurau adwerthu \*  
Mwy o bobl yn teithio pellter hir i weithio \*  
Dirywiad mewn amaethyddiaeth yn arwain at newidiadau yng nghymeriad y dirwedd a'i hunaniaeth \*  
Hyd y tymor \*
- 2.3 Ansawdd y Cynnyrch**  
Cau yn y gaeaf heb gydlynid \*  
Diffyg strategaeth ar gyfer rheoli ymwelwyr \*  
Y canfyddiad bod diffyg llety gwesty a sefydliadau bwyta fforddiadwy\*  
O gymharu â chyrchfannau eraill i dwristiaid, y canfyddiad ei bod yn ddrud \*
- 2.4 Tir y Cyhoedd**  
"Pyrrh" y ddinas yn cael eu cyflwyno'n wael
- 2.5 Rheoli Ymwelwyr**  
Cyfyngiadau cyfleusterau cyhoeddus sydd ar agor dros y prif fisoedd i ymwelwyr  
Perygl o niweidio'r "cynnyrch" (amgylchedd adeiledig, awyrgylch sanctaidd) oherwydd ei llwyddiant. Effaith yr amgylchedd adeiledig, y seilwaith a hanfod yr Eglwys Gadeiriol a'r Clos ei hun, sef "mynd ar drywydd amcanion crefyddol ac ysbrydol"
- 2.6 Colli hunaniaeth neu gymeriad y strydlun**  
Polion a gwifrau uwchben yn ymwithiol  
Rhai cynlluniau goleuadau stryd anaddas neu gyfuniad amhriodol o gynlluniau  
Amllder arwyddion masnachol, cyfarwyddiadau a gwybodaeth amhriodol ac ymwithiol  
Dodrefn stryd anaddas
- 2.7 Bioamrywiaeth ac ardaloedd agored**  
Colli cynefinoedd ar ymylon heolydd oherwydd traffig a gwelliannau i heolydd  
Esgeuluso a/neu dirlunio, plannu neu fanylder anaddas mewn ardaloedd agored  
Planhigion / coed ymledol yn effeithio ar y ffabrig hanesyddol  
Problem sbwriel gyffredinol ar draws y Ddinas  
Problemau c n, adar a chnoflod
- 2.8 Rheoli Traffig**  
Dibyniaeth drom ar y car (mae'n lleoliad gwledig, wedi dweud hynny)  
Llif traffig tymhorol trwm  
Traffig trwm yn defnyddio heolydd sy'n gul yn draddodiadol  
Effaith ymwithiol cerbydau ar y Clos ac ardaloedd hanesyddol eraill y ddinas  
Nid oes digon o fynediad i'r ddinas i gerbydau i bobl lai abl/yr ifanc/ yr henoed  
Prinder parcio oddi ar yr heol i ymwelwyr  
Nid yw'r parcio sydd ar gael wedi ei drefnu'n dda  
Cyfyngiadau cyflymder a pharcio ddim yn cael eu gorfodi'n ddigonol\*  
Y canfyddiad fod costau parcio ceir yn uchel i ymwelwyr  
Y canfyddiad ymhlith y gymuned nad ydyw'r cynllun bysiau arfordirol yn effeithiol
- 2.9 Colli hunaniaeth neu gymeriad y strydlun**  
Cyffyrdd, arwyddion, marciau traffig, arwynebau heolydd a phalmentydd safonol amhriodol  
Colli blaengyrtiau i ro lle i barcio ceir
- 2.10 Prosiectau Cymunedol a Hamdden**  
Y canfyddiad nad ydyw ysbryd y gymuned wedi'i gydlynu \*  
Cyfleusterau chwaraeon a hamdden dan do cyfyngedig dros fisoedd y gaeaf ac mewn tywydd garw\*

- 2.11 Ymwybyddiaeth**  
Nid oes digon o ddarpariaeth dehongli i ymwelwyr  
Nid oes gan y cyhoedd ganfyddiad da o rôl y Ganolfan Ymwelwyr
- 2.12 Gwarchod Adeiladau**  
Defnyddiau, cynlluniau a manylion modern anaddas yn yr amgylchedd adeiledig hanesyddol  
Ffiniau'n cael eu trin yn anaddas neu ddiffyg atgyweiriad.  
Y canfyddiad nad ydyw Cynllun Tref Hanesyddol Tyddewi yn cael ei hysbysebu'n dda  
Diffyg ymwybyddiaeth a diffyg sgiliau ym maes gwarchod adeiladau
- 2.13 Biodiversity**  
Diffyg Polisi Rheoli ar gyfer Dyffryn Alun a'r Clos Gostwng y pori ar dir comin  
Colli diffiniad ffiniau a chynefinoedd  
Cyflwyno dulliau a defnyddiau amhriodol sy'n niweidiol i fywyd gwyllt
- 2.14 Open Areas**  
Planhigion ymledol ar waliau ffiniau  
Ymddangosiad anniben wrth gefn adeiladau ac iardiau  
Yr angen am well cydnabyddiaeth a dehongliad ar gyfer llwybrau, heolydd a ffyrdd hanesyddol
- 2.15 Datblygiad**  
Tai  
Prinder tai newydd o fewn y ddinas\*  
Gostyngiad yn y stoc dai cymdeithasol  
Cynnydd ym mhrisiau tai yn cael ei weld fel canlyniad i'r cyflenwad a'r galw ond hefyd polisïau tai yn y CDU sydd ar y gweill  
Crynhoad uchel o ddatblygiadau a diffyg darpariaeth hamdden  
Diffyg cydnabyddiaeth i weddill yr adeiladau un llawr traddodiadol
- 3.0 CYFLEOEDD**
- 3.1 Economi / Adnoddau**  
Cymorth grant a Mentrau partneriaeth (Ewropeaidd, Cenedlaethol, Cynulliad Cenedlaethol; Cadw; Bwrdd Croeso Cymru; Awdurdod Datblygu Cymru; Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Cyngor Sir Penfro, Rhanbarthol; y Loteri; Uned Adfywio Cymunedol, PLANED, Gwirfoddol)\*  
Datblygiad pellach y Seilwaith E-fasnach/TG \*  
Ceisio monitro newidiadau mewn cyflogaeth\*
- 3.2 Twristiaeth**  
Annog strategaeth rheoli ymwelwyr  
Adnabod yr "angen" i gynyddu hyd y tymor a darparu ar gyfer yr angen yma\*  
Cydllynu cau ac agor dros y gaeaf (sefydliadau bwyta/llety/cyfleusterau)\*  
Adnabod yr angen i ddarparu mwy o westai a sefydliadau bwyta fforddiadwy o safon\*  
Archwilio darpariaeth canolfan hamdden amlbwrpas, sy'n gyfleus i bob tywydd \*
- 3.3 Tir y Cyhoedd**  
Rheoli Ymwelwyr  
Archwilio agoriad cyfleusterau cyhoeddus yn ystod y prif fisoedd ymwelwyr
- 3.4 Colli hunaniaeth cymeriad y strydlun**  
Gosod gwifrau dan ddaear  
Adnabod a gweithredu Cynllun Goleuo priodol  
Rhesymoli arwyddion  
Datblygu cynllun dodrefn stryd a rhaglen adnewyddu
- 3.5 Biodiversity**  
Cynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth yr ardal  
Archwilio'r angen am Gynllun Rheoli integredig sy'n dod â chadwraeth yr amgylchedd adeiledig a bioamrywiaeth at ei gilydd environment and biodiversity;  
Cynllun Rheoli Coed / Dolydd  
Amddiffyn cynefinoedd ar ymylom heolydd
- 3.6 Open Areas / Trees**  
Adnabod tirlunio, plannu neu fanylion amhriodol a/neu sydd wedi'u hesgeuluso mewn ardaloedd agored, a'u gwella  
Cynllun Coed i wella golygfeydd a phlannu rhywogaethau priodol o'r newydd  
Cydnabod lonydd ac aleau hanesyddol a'u hymdeimlad caeedig  
Annog gwelliannau i gefn adeiladau, adeiladau atodol ac iardiau  
Archwilio materion sbwriel ar draws y Ddinas  
Archwilio achosion o faeddu c n, adar a chnofilod
- 3.7 Rheoli Traffig**  
Gwella pyrth y Ddinas  
Cyflwyno cynllun rheoli traffig  
Archwilio'r angen am drwyddedau parcio i drigolion  
Archwilio parcio cyfnod byr rhad ac am ddim/cymorthdaledig i ymwelwyr  
Annog cerddwyr ar draws y Ddinas  
Archwilio'r posibilrwydd o bedestreiddio'n rhannol, a chyfleusterau ar gyfer y llai abl  
Archwilio'r posibilrwydd o ostwng y defnydd o geir o fewn y Clos  
Ailaddysgu trigolion ac ymwelwyr ynghylch traffig  
Hyrwyddo'r Bysiau Arfordirol a'r Llwybr Beicio ymhellach  
Gorfodi cyfyngiadau cyflymder a pharcio

- 3.8 Colli hunaniaeth neu gymeriad y strydlun**  
Annog arfer cadwraeth gorau wrth ddefnyddio arwynebau a manylder a gosod cyffyrdd Adnewyddu palmentydd/blaengyrtiau mewn ffordd sympathetig yn y ddinas hanesyddol Archwilio opsiynau cadwraeth eraill ar gyfer marciau ffyrdd safonol, ymwthiol yn yr Ardal Gadwraeth  
Gwella a rhesymoli arwyddion cyfeirio
- 3.9 Prosiectau Cymunedol a Hamdden**  
Hybu ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau hamdden sydd ar gael  
Cefnogi a hybu cynlluniau a digwyddiadau cymunedol sydd wedi eu sefydlu  
Hybu a chefnogi'r gwaith o ddehongli treftadaeth yr ardal  
Arddangosfeydd blodau gan fusnesau ac unigolion preifat i'w hannog ymhellach\*  
Parhau i gofnodi traddodiadau a chwedloniaeth leol  
Hybu cyfathrebu ac ymgynghori yn lleol  
Hybu Llwybrau Hanesyddol a Theithiau Cylch  
Hybu Marchnad Agored/Marchnad  
Ffermwyr/Marchnad Sefydliad y Merched
- 3.10 Ymwybyddiaeth**  
Rheoli Ymwelwyr  
Archwilio' angen am ddarpariaeth ddehongli bellach  
Cadw'r cymeriad arbennig a'r hunaniaeth sanctaidd
- 3.11 Colli hunaniaeth neu gymeriad y strydlun**  
Annog y defnydd o ddefnyddiau a chynlluniau priodol yn yr amgylchedd adeiledig hanesyddol  
Annog triniaeth briodol ar gyfer ffiniau  
Gwella hysbysebu masnachol amhriodol  
Atal colled adeiladau un llawr
- 3.12 Gwarchod Adeiladau**  
Cynyddu ymwybyddiaeth o Bartneriaeth Cynllun Tref  
Hanesyddol Tyddewi a chynlluniau grant eraill  
Ymestyn ffin yr Ardal Gadwraeth  
Gwella'r diffyg ymwybyddiaeth a'r diffyg sgiliau ym maes gwarchod adeiladau.
- 3.13 Datblygu**  
Tai  
Annog cefnogaeth ar gyfer y rheiny sy'n prynu am y tro cyntaf\*
- 3.14 Cymunedol a hamdden**  
Archwilio'r angen am gyfleusterau chwaraeon a hamdden dan do dros fisoedd y gaeaf ac mewn tywydd garw\*
- 3.15 Astudiaeth ac Ymchwil**  
Rhoi sylw i'r diffyg sgiliau ac ymchwil ym maes
- Gwarchod Adeiladau  
Hyfforddiant ar y Dreftadaeth Adeiledig  
Ymchwilio i archeoleg, hanes a chwedloniaeth leol  
Annog defnyddiau, technegau a thechnoleg fodern briodol
- 4.0 BYGYTHIADAU**
- 4.1 Economi/Adnoddau**  
Effaith dirywiad amaethyddiaeth ar y dirwedd o amgylch a'r gymuned\*  
Allfudo'n parhau\*  
"Pob wy yn yr un fasged" (dibyniaeth ar dwristiaeth) \*  
Colli cymeriad "bywyd bob dydd" Tyddewi fel canolfan siopa leol.  
Colli cymeriad ysbrydol yr Eglwys Gadeiriol a'r Clos  
Mwy o gystadleuaeth gan wyliau pecyn tramor\*  
Methu ag ymateb i newidiadau yng ngofynion y farchnad\*  
Cau cyfleusterau hamdden \*  
O gymharu â chyrchfannau eraill i dwristiaid, canfyddiad ei bod yn ddrud \*
- 4.2 Tir y Cyhoedd**  
Straen ar y gwasanaeth iechyd / cyfleusterau cymunedol (poblogaeth sy'n heneiddio)\*  
Cynnyrch a rhagofynion yn cael eu safoni'n amhriodol fwy a mwy  
Esgeulustod ac annibendod oherwydd gostyngiad ym muddsoddiad llywodraeth leol\*
- 4.3 Rheoli Traffig**  
Cynnydd yn llif traffig a phroblemau parcio (gan ostwng mwynhad y cyhoedd)  
Rhwydwaith o heolydd cenedlaethol yn ehangu drwy'r amser; Tyddewi o fewn dalgyllch sy'n ymestyn \*  
Safoni cynnyrch, cynlluniau a defnyddiau mewn ffordd amhriodol  
Colli ffabrig hanesyddol a niweidio'r adeiladau a'r amgylchedd o ganlyniad i gerbydau a'u hallyriannau  
Agor blaengyrtiau/dymchwel waliau cwrtail i roi lle i geir
- 4.4 Ymwybyddiaeth**  
Mewnfudiad cynyddol yn gysylltiedig â cholli diwylliant a thraddodiadau a gostwng ysbryd / grym gyrru'r gymdeithas a'r gymuned\*  
Canfyddiad fod cysylltiadau rhwng mewnfudo a gwrthwynebu newidiadau \*  
Cynnyrch, defnyddiau, cynllun a manylion amhriodol  
Colli ffabrig hanesyddol, diwylliant, sgiliau, iaith, traddodiadau ac enwau  
Hunanfodlonrwydd  
Diraddio ardaloedd agored/gwyrdd, archeoleg a

golygfeydd hanesyddol

#### 4.5 Datblygu

Diffyg tai fforddiadwy \*

Rhai o'r farn fod y polisi CDU sy'n dod i'r  
amlywg ar drawsnewid a thai lleol a hanfodol  
yn cael effaith negyddol \*

Pwysedd cynyddol oherwydd datblygiadau  
Datblygiadau amhriodol ar gyrion yr Ardal  
Gadwraeth, safleoedd mewnlennwad ac  
ailddatblygu

Mwy o ddefnydd o gynnyrch, defnyddiau a  
chynlluniau homogenaidd

Diffyg argaeledd defnyddiau a sgiliau lleol

## **4 DADANSODDIAD O DDIBEN, AMCANION, STRATEGAETH A THEMÂU ARDAL GADWRAETH TYDDEWI**

Mae angen rhoi sylw i'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau a nodwyd yn adran 3.0 fel rhan o ymagwedd gydlynol, wedi'i strwythuro. Un ymagwedd o'r fath yw defnyddio dadansoddiad o Ddiben, Amcanion, Strategaeth a Themâu sy'n strwythuro'r ffordd o feddwl mewn hierarchaeth glir, o'r athroniaethau sylfaenol i fanylion gweithredu.

### **Diben**

- Gwarchod a gwella'r nodweddion pensaernïol, archeolegol a hanesyddol arbennig sy'n cyfrannu at gymeriad Ardal Gadwraeth Tyddewi mewn ffordd briodol a, ble'n bosib, mewn ffordd gynaliadwy.

### **Amcanion**

- Sicrhau bod y nodweddion arbennig sy'n cyfrannu at gymeriad Ardal Gadwraeth Tyddewi yn cael eu gwerthfawrogi, eu gwarchod, a'u gwella am eu gwerth hanesyddol, pensaernïol ac esthetig ac am eu cyfraniad at ansawdd ein bywydau a'r economi lleol.
- Sicrhau bod unrhyw waith a datblygiadau newydd yn parhau cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn ychwanegu ato, ac nad oes unrhyw waith newydd yn tynnu oddi ar ei chymeriad nac yn ei niweidio.
- Sicrhau bod y defnydd o'r Ardal Gadwraeth, a'i rheolaeth, yn parhau ei nodweddion arbennig, ac yn ychwanegu atynt, ac nad oes unrhyw ddefnydd neu reolaeth yn y dyfodol yn tynnu oddi ar y ei chymeriad nac yn ei niweidio.
- Sicrhau bod gosodiad yr Ardal Gadwraeth yn cael ei warchod a'i wella.
- Sicrhau bod datblygiad a defnydd yn cydymffurfio gyda'r polisiâu a osodir yn y CDLI (o fewn y ddogfen hon tanlinellir polisiâu pwysig ond dylid nodi bod angen darllen y CDLI yn ei gyfanrwydd ac felly fe allai polisiâu eraill fod yn berthnasol hefyd) a'r amcanion sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Cymunedol.
- Sicrhau bod adeiladau hanesyddol yn cael eu gwarchod gan ddefnyddio arferion gorau cadwraeth (e.e. Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol (SPAB), Cadw ayb.), gan gadw cymaint â phosib o'r ffabrig hanesyddol mewnol ac allanol, defnyddio defnyddiau traddodiadol, a rhai a gafwyd mewn ffordd gynaliadwy ble'n bosib.

### **Strategaeth**

- Gweithio gyda phobl leol i:
  - Gynhyrchu Datganiad o Gymeriad cynhwysfawr ar gyfer Ardal Gadwraeth Tyddewi sy'n nodi pam dynodwyd yr ardal a beth yw ei nodweddion arbennig.

- Cynhyrchu Dogfen Gynigion gynhwysfawr ar gyfer Ardal Gadwraeth Tyddewi sy'n nodi sut mae modd gwarchod a gwella'i nodweddion arbennig ar gyfer y presennol a'r dyfodol.
- Sicrhau bod y dogfennau hyn yn seiliedig ar:
  - Ymchwil drylwyr
  - Ymgynghori helaeth
  - Perchnogaeth eang y fenter

### **Themâu (Offerynnau)**

- Datblygu a gweithredu rhaglen gydlynol o gynigion ar sail y themâu canlynol:
  - Adnoddau
  - Tir y Cyhoedd
  - Rheoli Traffig
  - Prosiectau Cymunedol
  - Ymwybyddiaeth
  - Datblygiad
  - Rheolaeth
  - Astudiaeth ac Ymchwil

a cheir manylion y rhain yn adrannau 5-12, gan gynnwys adran 5 ac adran 12.



**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**

**Tyddewi**  
Ardal Gadwraeth: Nodweddion

**Tyddewi**  
Ardal Gadwraeth  
Dynodwyd 1977  
Ymestynnwyd 1995



**Allwedd**

-  Ffin yr Ardal Gadwraeth
-  Adeiladau Tirnod
-  Adeiladau o bwysigrwydd lleol
-  Nodweddion lleol
-  Golygfeydd allweddol
-  Cio/lwy o wrthrych/tirnod/pwynt dibedddeb
-  Curtiau/ffrwyntadau pwysig
-  Mannau agored pwysig
-  Trywydd pwysig i gerddwyr
-  Coed sy'n bwysig i leoliad yr Ardal Gadwraeth

**Graddfa**



**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**



© Hawlfraif y Goron. Cedwir pob hawl Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 100022534, 2004.



**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**

**Tyddewi**  
Ardal Gadwraeth: Cyfleoedd

**Tyddewi**  
Ardal Gadwraeth  
Dynodwyd 1977  
Ymestynnwyd 1995



**Allwedd**

-  Ffin yr Ardal Gadwraeth
-  Cyfle i wella'r blaengwrt/cwrtill/  
ffyniadau stop
-  Cyfle i wella'r adeilad
-  Cyfle i wella'r ardal
-  Cyfle i wella tir y cyhoedd/roeddedion
-  Cyfle i roi sylw i'w gwrthdaro rhwng  
traffig a dherdwyr

**Graddfa**



**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**



## 5 ADNODDAU

### 5.1 NAWDD CADWRAETH – GRANTIAU'R BARTNERIAETH CYNLLUN TREF HANESYDDOL (APCAP)

#### Egwyddorion

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mewn partneriaeth â Cadw, yn gallu cynnig grantiau i berchnogion eiddo i'w hannog i warchod a gwella adeiladau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth mewn ffordd briodol.



Ye Olde Shoppe, Heol Non



ac yn dilyn Cymorth Grant y Cynllun Tref Hanesyddol (2002)

#### Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)

#### Cynigion

Sefydlu cynllun o dan Adran 57 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a sicrhau nawdd gan amrywiaeth eang o bartneriaid.

#### Blaenoriaethau

Diffinio'r adeiladau, nodweddion a gweithiau hynny sy'n cyfrannu fwyaf at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth a blaenoriaethu taliadau grant tuag at eu gwarchod a'u gwella. Mae APCAP a Cadw wedi nodi'r gwaith thematig a'r adeiladau sy'n flaenoriaeth yn ystod adolygiad diweddar o'r partneriaethau cynllun tref hanesyddol. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys:

#### Eiddo:

- Y Garej ger Rhif 9 Heol Newydd
- Gwesty'r Grove a'r Ardd Furiog

- 18-20 Heol Fawr
- 35 Heol yr Afr
- Warws gyferbyn â Rhif 47 Heol yr Afr
- Capel Ebeneser
- Claddgelloedd, Neuadd y Clwysty
- Waliau sy'n ffinio â'r Afon Alun (i'r gogledd o'r Eglwys Gadeiriol)
- Milton Hall, Heol Non (gan gynnwys yr adeiladau allanol a'r gladdgell)

#### Themes:

- Toeon wedi'u growtio
- Ffenestri
- Rendro / gwyngalchu
- Adeiladau ategol / cwrttil
- Waliau ffin / cynnal (Clos yr Eglwys Gadeiriol)
- Cerrig Bedd a Chofebion


#### Lle

Diffinio ardaloedd, adeiladau a themâu, y bydd y gwaith o'u gwarchod a'u gwella yn cyfrannu fwyaf at nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth a chyfeirio grantiau (ar lefel o 40%) tuag atynt. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys

- Gwesty'r Grove, Heol Fawr; Rhifau 19-23 Heol Newydd, Heol yr Afr (colli blaengyrtiau)
- Royal Terrace, Heol Non; Heol Fawr (rheiliau)
- Low Pressure Café, adeiladau allanol wrth gefn Milton House, adeiladau allanol Feidr Efengyl,
- Catherine Street (ffiniau'n cael eu trin yn amhriodol)
- Teras Heol Non, TLWS-A-TWT, Rhif 29 Heol Fawr (colli ffabrig a manylion hanesyddol)
- Cathedral Villas (gwaredu'r rendro hanesyddol)
- Cefn sawl eiddo yn Heol Fawr sy'n ymuno â Heol y Bryn
- The Surf Hut a TYF a Voyages of Discovery, Heol Fawr a'r Swyddfa Bost, TLWS-A-TWT Heol Non (arwyddion hysbysebu amhriodol)

#### Partneriaid

Fe fydd y bartneriaeth ffurfiol yn cynnwys APCAP, Cadw a pherchnogion eiddo. Daw'r nawdd o amrywiaeth mor eang â phosib o bartneriaid eraill, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro (CSP), a Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).



Albany House , Heol yr Afr



Ac yn dilyn Cymorth Grant y Cynllun Tref Hanesyddol yn (2001)

### Rhaglen

Mynd at bartneriaid allweddol yn rheolaidd gyda'r nod o gytuno ar nawdd.

### Ar Waith

Fe fydd y cynllun yn cael ei reoli gan Swyddog Gwarchod Adeiladau APCAP

## 5.2 NAWDD CADWRAETH – GRANTIAU CADW

Tra bod Cadw'n ariannu'r Bartneriaeth Cynllun Tref Hanesyddol ar y cyd (5.1), efallai y bydd nawdd cyfyngedig ar gael ar gyfer cynlluniau ychwanegol.

### Egwyddorion

Mae Cadw'n cynnig dau grant:

- Gwaith ar adeiladau neilltuol (Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953).
- Gwaith sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at warchod neu wella cymeriad yr Ardal Gadwraeth, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhedredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

### Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)

### Cynigion

Sicrhau bod grantiau cyfredol gan Cadw:

- Yn cael eu defnyddio'n llwyr i warchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.
- Yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n mynd law yn llaw gyda phob gweithdrefn grant arall.
- Yn cael eu targedu at safleoedd a lleoliadau pwysig.

### Blaenoriaethau

Cynghori pob un sy'n gysylltiedig â gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth fod grantiau Cadw ar gael.

### Lle

Cynghori pob un sy'n gysylltiedig ag adeiladau ac ardaloedd pwysig, fod grantiau Cadw ar gael.

### Partneriaid

Cadw, perchnogion eiddo a hyrwyddwyr prosiectau, APCAP.

### Rhaglen

Rhan o ymgyrch ymwybyddiaeth gyffredinol.

### Ar Waith

Cyswllt parhaus gyda Cadw, perchnogion eiddo a hyrwyddwyr prosiectau.

## 5.3 NAWDD SYDD DDIM YN NAWDD CADWRAETH

(e.e. grantiau tai, cyllid seilwaith priffyrdd, grantiau'r Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyllidebau ymgymeryddion statudol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ayb

### Egwyddorion

Mae'r economi lleol yn fregus (yn dibynnu'n fawr ar dwristiaeth, amaethyddiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a masnachol a chynulladau Tyddewi) ac mae gwaith cadwraeth yn gallu bod yn gostus.

Mae'n bwysig felly sicrhau bod:

- Nawdd a ddyrannwyd i'r ardal yn barod yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth, ymhlith pethau eraill.
- Nawdd allanol ar gyfer gwaith gwarchod a gwella yn cael ei uchafu a'i gydlynu er mwyn helpu cynnal yr economi lleol.

### Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)

### Cynigion

- **Rhagweithiol:** cytuno ar amcanion cyffredin gyda chyllidwyr allanol tuag at ffurfioli "cytundebau gweithio" gyda phob un yn unol ag Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995.
- **Ymatebol:** ymateb i fentrau cyllidwyr allanol gan dynnu eu sylw at bwysigrwydd gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth trwy'r rhaglenni sydd ganddynt yn barod.

### Blaenoriaethau

- Canolbwyntio ar y gwaith/rheolaeth sy'n cael yr effaith fwyaf ar warchod/gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.
- Annog gweithrediad strategaeth rheoli ymwelwyr.

### Lle

Canolbwyntio ar yr ardaloedd a'r adeiladau sydd fwyaf pwysig i warchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth

### Partneriaid

Pawb sy'n buddsoddi yn yr ardal, yn enwedig CSP,

APCAP, ymgymeryddion statudol, Llywodraeth  
Cynulliad Cymru ac APCAP.

### **Rhaglen**

- **Rhagweithiol:** mynd at bartneriaid pwysig gyda'r nod o gytuno ar gytundebau gweithio o fewn deuddeg mis.
- **Ymatebol:** gweithio'n agos gyda chyllidwyr allanol gyda'r nod o gael dylanwad positif ar y rhaglenni gwaith sydd ganddynt yn barod.


### **Ar Waith**

Darparu copi o'r ddogfen hon ar gyfer prif swyddogion ym mhob un o'r asiantaethau cyllid perthnasol.


## 6 TIR Y CYHOEDD

Tra bod gwarchod a gwella eiddo preifat yn yr Ardal Gadwraeth yn bwysig, mae ardaloedd a nodweddion cyhoeddus (e.e. strydoedd, lonydd, aleau, palmentydd, polion, ceblau uwchben, arwyddion, goleuadau, meinciau ayb.), a hefyd bioamrywiaeth unigryw Tyddewi, yn cael effaith sylweddol ar nodweddion arbennig yr ardal.

Er mwyn cystadlu ar lefel economaidd, mae angen i ganol trefi adnabod eu "personoliaeth" unigryw, a'i ecsploetio, fe eu bod yn cynnig rhesymau gwahanol i bobl ymweld. Mae tir cyhoeddus sydd wedi'i ddylunio'n dda ac o ansawdd uchel yn gallu helpu creu "naws am le" mewn cymunedau, sy'n ychwanegu at eu hatyniad y tu hwnt i'r ardal amlwg (Polisi Cynllunio Cymru NCT12: Dylunio paragraff 5. 14.3 (2009))



Sgwâr y Groes (2002)



### Egwyddorion

- Sicrhau bod ardaloedd cyhoeddus, nodweddion a'r fioamrywiaeth yn cael eu rheoli a'u gwella er mwyn helpu sicrhau bod nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael eu gwarchod a'u gwella.
- Anelu at wneud adeiladau hanesyddol sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn hygyrch i bawb (Goresgyn y rhwystrau: darparu mynediad corfforol i adeiladau hanesyddol, (Cadw 2002).

### Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)
- Polisi 9 CDLI (Llygredd Golau)
- Polisi 16 CDLI (Gofodau Agored a Lletemau Glas)
- Polisi 29 CDLI (Dylunio Cynaliadwy)
- Polisi 55 CDLI (Linellau Pŵer a Phiblinellau)

### Cynigion

- **Rhagweithiol:** cytuno ar amcanion cyffredin, gyda'r sefydliadau perthnasol, tuag at ffurfioli "cytundebau gweithio" gyda phob un yn cydymffurfio gydag Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995.
- **Ymatebol:** ymateb i fentrau'r sefydliadau perthnasol gan dynnu eu sylw at bwysigrwydd gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth trwy eu rhaglenni presennol.

### Blaenoriaethau

Yr Ardal Gadwraeth a'i gosodiad ond gyda ffocws penodol ar:

- Osod ceblau salw o dan y ddaear (yn amodol ar ystyriaethau archeolegol)
- Rhesymoli dyluniad a lleoliad dodrefn stryd
- Cynlluniau goleuo sensitif
- Cadw llygredd goleuni at leiafswm
- Dylunio a lleoli dodrefn stryd yn briodol
- Arwyddion priodol
- Integreiddio bioamrywiaeth a chadwraeth yr amgylchedd adeileidig ar bob cyfle.
- Datblygu Cynllun Rheoli Coed fel rhan o Gynllun Bioamrywiaeth integredig i wella golygfeydd, osgoi difrod i'r ffabrig hanesyddol a phlannu rhywogaethau priodol.
- Datblygu Cynllun Rheoli Ymwelwyr ar gyfer y Ddinas fel rhan o strategaeth ar gyfer ardal gyfan y Parc



### Lle

Yr holl Ardal Gadwraeth ond gyda ffocws ar:

- Heol Fawr (polion, gwifrau uwchben a blwch ffôn ger Rhif 20; ardal seddi ger cyffordd Heol Newydd)
- Sgwâr y Groes (polion a gwifrau uwchben; goleuadau stryd ac arwyddion; potiau blodau concrit tu allan i Neuadd y Ddinas, baw c n, cnofilod ac adar)
- Y Popls (blwch ffôn)
- Heol y Bryn (polion a gwifrau uwchben; goleuadau stryd)
- Heol Non ((polion a gwifrau uwchben; arwyddion)
- Heol Newydd (polion a gwifrau uwchben, arwyddion)

- Heol yr Afr (polion a gwifrau uwchben, goleuadau stryd a mowntin arwyddion wrth gyffordd Catherine Street)
- Pit Street (arwyddion; tirlunio'r ardal ger cyffordd Catherine Street yn arwain at Pit Street)
- Y Cwll (polion a gwifrau uwchben, goleuadau stryd; tirlunio'r maes parcio a'r ganolfan ailgylchu a'r llwybr)
- Dyffryn Alun (polion a gwifrau uwchben; rheoli gofodau agored e.e. Perllan Chanters; y Llys i Benporth-gwyn; planhigion ymledol Peters Lane, Treasurer's House a'r Ganolfan Ymwelwyr)
- Peters Lane (goleuadau stryd)
- Cyfuniad o finiau sbwriel safonol ar draws yr Ardal Gadwraeth

### Partneriaid

Yr holl asiantaethau hynny sy'n gysylltiedig â Thir y Cyhoedd ond yn enwedig:

- CSP
- Asiantaeth yr Amgylchedd (AA), British Telecom (BT), Cwmnïau Gweithredu Telegyfathrebu, Western Power, Transco, D r Cymru, CCGC
- Cyngor Dinas Tyddewi

### Rhaglen

- **Rhagweithiol:** mynd at sefydliadau priodol gyda'r bwriad o gytuno ar gytundebau gweithio o fewn deuddeg mis
- **Ymatebol:** gweithio'n agos gyda sefydliadau priodol gyda'r bwriad o ddylanwadu mewn ffordd bositif ar eu rhaglenni presennol.

### Ar Waith

Y cyfan yn unol â:

- Chanllawiau Cadw "Goresgyn y Rhwystrau – Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 Archaeoleg ac Ardaloedd Hanesyddol
- Cadw Welsh Historic Monuments (n.d.) Rheoli Traffig mewn Ardaloedd Hanesyddol
- English Heritage (1993) Street Improvements in Historic Areas
- English Heritage (1995) Development in Historic Environment
- English Heritage (1997) Conservation Issues in Local Plans
- English Heritage (Mehefin 1993) Conservation Area Practice: guidance on the management of Conservation Areas
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (1997) Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (Rhifyn 3, Gorfennaf 2010) Polisi Cynllunio Cymru

## 7 RHEOLI TRAFFIG

Ni chynlluniwyd craidd hanesyddol Tyddewi i ddarparu ar gyfer cludiant modur sydd (yn enwedig yn ystod y tymor twristiaeth) yn gallu cael effaith niweidiol ar y gallu i warchod a mwynhau nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.

**Mewn cymdogaethau trefol a gwledig sydd eisoes wedi cael eu sefydlu, dylid mabwysiadu mesurau rheoli traffig i wella amgylchedd y stryd ac i hyrwyddo diogelwch ar y ffordd (Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010 paragraff 8.4.1)**

### Egwyddorion

- Atal difrod ffisegol i nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.
- Gostwng tagfeydd (gan gynnwys anghyfleuster, aneffeithlonrwydd ayb.) a gwella diogelwch yn yr Ardal Gadwraeth.
- Gwella gallu cerddwyr yr Ardal Gadwraeth i fwynhau (trwy ostwng sŵn, arogleuon, llwch ayb.).

### Polisi

- Polisi 52 CDLI (Trafnidiaeth Gynaliadwy)

### Cynigion

Annog CSP i weithredu cynllun rheoli traffig ar gyfer yr Ardal Gadwraeth, yn unol ag Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995, fel rhan o strategaeth drafndiaeth ehangach ar gyfer yr ardal sy'n cynnwys:

- Parhau gyda'r cynllun 'Parcio a Theithio', ystyried pedestrieddio / cynlluniau sy'n ystyried y cerddwr, tawelu traffig, parcio i drigolion / ymwelwyr, mynediad i'r anabl, rhwydweithiau seiclo a cherdded.
- Cyfyngiadau ar bwysau a hyd cerbydau, dosbarthu nwyddau, llwytho, mynediad, amser ayb.
- Gwella'r prif ddyfodfeydd i'r Ddinas.
- Ymchwilio i'r defnydd o gerbydau o fewn Clos yr Eglwys Gadeiriol.
- Arfer Cadwraeth Gorau yn y defnydd o arwynebau, manylion a gosodiad cyffyrdd (Rheoli Traffig mewn Ardaloedd Hanesyddol Cadw (2001)



### Blaenoriaethau

Mae angen cynnwys yr Ardal Gadwraeth gyfan, a'i gosodiad, mewn unrhyw gynllun rheoli traffig, ond mae rheoli traffig tymhorol eithafol yn flaenoriaeth.

### Lle

Mae'r Ddinas gyfan yn bwysig ond mae'r canlynol yn flaenoriaethau cadwraeth penodol: -

- Prif ddyfodfeydd y Ddinas (manylion ac arwyddion safonol amhriodol)
- Sgwâr y Groes (colli manylion y gyli tu allan i Cartref)
- Heol Fawr (Dim palmant ar yr ochr orllewinol, palmentydd safonol a wal garreg sydd ddim yn garreg leol ger y Grove)
- Heol Non (gwrthdaro rhwng cerddwyr a thraffig)
- Heol Newydd (gwrthdaro gyda cherddwyr, cyfuniad o ddefnyddiau atgyweirio, palmentydd yn wael)
- Heol yr Afr (cyfuniad o ddefnyddiau atgyweirio ar hyd y stryd)
- Y Cwccwll (colli manylion y llwybr)
- Clos yr Eglwys Gadeiriol (effaith traffig a cholli arwyneb traddodiadol yr heol ger y Deondy, yr Archddiaconiaeth, y grisiau ochr yn ochr â Neuadd y Clwsty, Pen-y-ffos a'r ardal o'r Llys i Ben-porth-gwyn)
- Defnydd o farciau ffordd wedi eu cynllunio'n ansensitif ar draws yr Ardal Gadwraeth

### Partneriaid

CSP, Awdurdod Heddlu Dyfed Powys

### Rhaglen

- **Rhagweithiol:** mynd at sefydliadau priodol o fewn deuddeg mis gyda'r nod o gytuno ar gytundebau gweithio.
- **Ymatebol:** gweithio'n agos gyda sefydliadau priodol gyda'r nod o ddylanwadu mewn ffordd bositif ar eu rhaglenni a'u harferion presennol

### Ar Waith

Yn unol â

- Cadw Welsh Historic Monuments (n.d.) Rheoli Traffig mewn Ardaloedd Hanesyddol
- English Heritage (1993) Street Improvements in Historic Areas
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (Rhifyn 3, Gorffennaf 2010) Polisi Cynllunio Cymru
- Civic Trust (1993) Traffic Measures in Historic Towns – an Introduction to good practice
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (1998) Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)

## 8 PROSIECTAU CYMUNEDOL

Mae gan bobl a sefydliadau lleol lawer i'w gyfrannu at y broses o warchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.



### Egwyddorion

Galluogi pobl a sefydliadau lleol i gyfrannu at y broses o warchod a gwella'r Ardal Gadwraeth, a'u cefnogi a'u hannog i wneud hynny.

### Polisi Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)

### Cynigion

- Helpu meithrin gallu'r gymuned i alluogi pobl leol i gyfrannu at y broses o wella'r Ardal Gadwraeth a'i gosodiad ehangach.
- Meithrin synnwyr o 'falchder yn ein bro' yn yr Ardal Gadwraeth a'i gosodiad ehangach.
- Helpu dylanwadu ar / cefnogi mentrau lleol i sicrhau eu bod yn cyfrannu at y broses o wella'r Ardal Gadwraeth a'i gosodiad ehangach.

### Blaenoriaethau

- **Rhagweithiol:** Annog partneriaid cymunedol pwysig i ddatblygu rhaglen o feithrin gallu.
- **Ymatebol:** Ymateb i ddyheadau'r gymuned a darparu'r gefnogaeth a'r cyngor sydd eu hangen.

### Lle

Ar draws yr Ardal Gadwraeth.

### Partneriaid

Cyngor Dinas Tyddewi, grwpiau ac unigolion lleol, Archaeoleg Cambria, PLANED, CSP (UAC), PAVS, ac eraill sy'n gysylltiedig â chefnogi'r gymuned.

### Rhaglen

- **Rhagweithiol:** Helpu'r sefydliadau priodol o fewn 12 mis i'w hannog i helpu'r gymuned leol i warchod a gwella'r ardal.
- **Ymatebol:** Cynorthwyo prosiectau cymunedol gyda chefnogaeth a chyngor.



## 10 DATBLYGIAD

Mae'n bwysig fod datblygiadau newydd yn parchu cymeriad yr Ardal Gadwraeth o ran maint, defnyddiau a manylion. Fe fydd ailddatblygu neu uwchraddio adeiladau mewn ffordd sensitif, i'w defnyddio fel cartrefi, fel busnes neu at ddefnydd arall, yn arwain at fwy o werth cyfalaf i'r perchennog ac fe fydd hyn, yn ei dro, yn annog buddsoddiad o'r tu allan a hyder yn yr ardal.

**Dylai datblygiad da osgoi cynllun modern ansensitif a hefyd dynwarediad arwynebol nodweddion hanesyddol mewn adeiladau newydd (Building in Context - new development in historic areas CABE (2001)**

### Egwyddorion

Sicrhau bod datblygiadau newydd a gwaith ailddatblygu yn gwarchod ac yn gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.

### Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)
- Polisi 29 CDLI (Dylunio Cynaliadwy)
- Polisi 30 CDLI (Amwynder)

### Cynigion

- Adnabod cyfleoedd datblygu yn unol â'r CDLI sydd ar y gweill
- Paratoi briffiadau datblygu/cynllun ar gyfer safleoedd ac adeiladau pwysig
- Gweithio gyda datblygwyr yn y cam cyn cyflwyno cais i sicrhau bod eu cynigion yn gwarchod ac yn gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth
- Datblygu nodyn canllaw cyffredinol i ymgeiswyr
- Annog ceisiadau cynllunio / Adeilad Rhestredig llawn, manwl ar gyfer pob cynnig i ddatblygu ac ailddatblygu (gan gynnwys darluniau o'r strwythurau/ardaloedd gerllaw).
- Sicrhau y ceir ymgynghoriad eang ar bob cais i ddatblygu yn yr Ardal Gadwraeth

### Blaenoriaethau

- Parhau i fodloni'r egwyddorion a nodir yn y dadansoddiad o Ddiben, Amcanion, Strategaeth a Themâu ar sail ymatebol a arweinir gan ddatblygiad.
- Helpu cyflwyno safleoedd potensial i'w harddu, eu gwella a'u datblygu.

### Lle

Ar draws yr Ardal Gadwraeth ond yn enwedig safleoedd / adeiladau potensial ar gyfer eu hailddatblygu/cyfoethogi o fewn yr Ardal Gadwraeth fel a ganlyn: -

- Adeilad y Groes Goch
- Gorsaf yr Heddlu
- Yr Iard ger Banc Barclays

- Rhif 1 Heol Fawr Voyages of Discovery
- Y Rhandai
- Rhif 36/34 Heol Fawr

### Partneriaid

Datblygwyr, CSP, CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd, penseiri, syrfewyr, adeiladwyr ayb.

### Rhaglen

**Rhagweithiol:** paratoi briffiadau datblygu  
**Ymatebol:** i gynigion ymgeiswyr

### Ar Waith

Y cyfan yn unol â:-

- CABE (2000) By Design - urban design in the planning system: towards better practice
- CABE (2001) Building in Context - new development in Historic Areas
- CABE (2001) The Value of Urban Design
- English Heritage (1995) Development in Historic Environment
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (1996) Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (Rhifyn 3, Gorffennaf 2010) Polisi Cynllunio Cymru

## 11 RHEOLAETH

Os nad yw'r Ardal Gadwraeth yn cael ei gwarchod a'i gwella'n ddigonol, yna mae deddfwriaeth gynllunio'n rhoi lle i gyflwyno mesurau rheoli ychwanegol. Tra gobeithir y bydd pob un sy'n gysylltiedig â dyfodol yr Ardal Gadwraeth yn hybu'r gwaith o warchod a gwella ei nodweddion arbennig, mae'n bwysig fod yna weithdrefnau mewn lle i atal unrhyw gamau amhriodol gan y rheiny nad ydynt yn gwneud hynny.

### Egwyddorion

- I atal datblygiadau a defnydd sy'n cael effaith annerbyniol ar archaeoleg yr Ardal Gadwraeth, ei ffabrig hanesyddol a'i chymeriad.
- Sicrhau bod datblygiadau / defnydd newydd yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.
- Atal datblygiad ble byddai'n niweidio neu'n dinistrio gwerth coed neu grwpiau o goed fel amwynder.
- Atal datblygiadau / defnydd fyddai'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd neu gydlynid y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol y mae'r Ardal Gadwraeth yn gorwedd o'i mewn.
- Atal datblygiadau sy'n niweidio cyd-destun ffisegol Tyddewi ynghyd â'i dyfodfeydd a'r golygfeydd fel y nodir yn y Datganiad o Gymeriad.

### Polisiau Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)
- Polisi 11 CDLI (Gwarchod Bioamrywiaeth)
- Polisi 29 CDLI (Dylunio Cynaliadwy)
- Polisi 30 CDLI (Amwynder)

### Cynigion

- Pob cais i ddatblygu yn yr Ardal Gadwraeth yn cael ystyriaeth lawn gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y CDLI.
- Pob penderfyniad gan yr Awdurdod yn cael ei fonitro'n ofalus a, ble'n briodol, yn cael ei orfodi
- Ble'n briodol, Hysbysiadau Atgyweirio/Gwaith Brys a Hysbysiadau Gorfodi yn cael eu cyflwyno o dan Ddeddf Cynllunio, Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990
- Ystyried argymell rhestru adeiladau hanesyddol yn y fan a'r lle ble'n briodol
- Mae'r awdurdod lleol yn gallu defnyddio cyfarwyddiadau erthygl 4 i reoli addasiadau graddfa fach sy'n dod o fewn 'hawliau datblygu a ganiateir' (e.e. addasu ffenestri, cael gwared ar nodweddion cwrttil, diogelu olion archeolegol claddedig ayb.) a dylid ystyried p'un ai fod angen cyflwyno'r rhain ai peidio.
- Ystyried diddymu, gwneud a gweinyddu Gorchmynion Cadw Coed ble'n briodol

### Blaenoriaethau

Unrhyw fanylion sy'n cael effaith sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth yn enwedig ffenestri, drysau, arwyddion, dysglau lloeren, nodweddion ffin a choed.

### Lle

Yr Ardal Gadwraeth gyfan.

### Partneriaid

Datblygwyr, perchnogion eiddo, a phawb sydd am newid nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.

### Rhaglen

Cynigir bod yr Ardal Gadwraeth yn cael ei hadolygu i werthuso effeithiolrwydd y polisiau ddeuddeg mis ar ôl mabwysiadu'r Ddogfen Gynigion hon. Yna, fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried adroddiad sy'n nodi'r sefyllfa, gydag argymhellion ynghylch p'un ai fod angen cyflwyno cyfarwyddiadau Erthygl 4 ai peidio.

## 12 ASTUDIAETH AC YMCHWIL

Mae'n bwysig fod pob penderfyniad sy'n effeithio ar yr Ardal Gadwraeth yn seiliedig ar wybodaeth gadarn o'i rhinweddau archeolegol, hanesyddol a phensaernïol, sy'n gysylltiedig ag adeiladau unigol a hefyd gosodiad, defnydd tir a hunaniaeth leol.

### Egwyddorion

Mae'n bwysig fod y gwaith o warchod a gwella'r ardal yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'i nodweddion arbennig.

### Cynigion

- Casglu a choladu'r holl adroddiadau ac ymchwil cyfredol ar nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth, a diweddarau'r gronfa ddata'n rheolaidd.
- Sicrhau bod y gronfa ddata hon ar gael i fwydo unrhyw feirniadaeth ynghylch gwaith yn yr Ardal Gadwraeth.
- Datblygu a chynnal archif ffotograffig o ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.
- Comisiynu ymchwil pellach i nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth a thechnegau hanesyddol a modern ar gyfer eu gwarchod a'u gwella.
- Monitro newidiadau yng nghymeriad yr Ardal Gadwraeth, gan arwain at adolygiad o'r Ddogfen Gynigion hon

### Blaenoriaethau

- Ardaloedd o Glos yr Eglwys Gadeiriol sydd heb eu cloddio neu heb eu hymchwilio lawer (e.e. claddgelloedd Neuadd y Clwysty).
- Ymchwil i mewn i dechnegau adeiladu hanesyddol lleol (e.e. growtio, mathau o forter).
- Ymchwil i mewn i draddodiadau a chwedloniaeth leol

### Lle

Ar draws yr Ardal Gadwraeth a'i gosodiad.

### Partneriaid

Archaeoleg Cambria, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

### Rhaglen

**Rhagweithiol:** Monitro cymeriad yr Ardal Gadwraeth ac adolygu'r Ddogfen Gynigion hon o fewn 10 mlynedd.

**Ymatebol:** Parhaus.

### **13 ADOLYGIAD O FFIN YR ARDAL GADWRAETH**


O dan Adran 67 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990, mae'n ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol adolygu Ardaloedd Cadwraeth o bryd i'w gilydd. Mae Gweithgor yr Ardal Gadwraeth wedi awgrymu ymestyn y ffin i'r gogledd ddwyrain ac yn ardal Glasfryn: fe fydd y rhain, ac ychwanegiadau posib eraill (gan gynnwys tir ger Penlan, Lower Moor, Y Fagwr, Whitewell, St Nons a Twr-y-felin) yn cael eu hystyried yn fwy manwl fel proses ddeddfwriaethol ar wahân, ac fe fydd hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

# Tyddewi

Ardaloedd pellennig sy'n bwysig i leoliad yr Ardal Gadwraeth a'i chymeriad



**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**



## Tyddewi

Ardal Gadwraeth  
Dynodwyd 1977  
Ymestynwyd 1995

- A** Prominent area viewed from SW around Clegyr Boia, forming backdrop to cathedral tower, including Wynclyffe and Ygol Bro Dewi.
- B** Traditional properties framing New Street.
- C** Historic farmhouse and buildings (Glasfryn). Group of trees prominent on horizon when viewed from Penarthur to the NW.
- D** Traditional hedgerows on north side of the A487 forming main entry to St David's from the east.
- E** St David's Tourism Information Centre: key modern building forming prominent entry to High Street.
- F** Well landscaped car park and open field.
- G** Outlying fields, prominent tower of Twr-y-felin, important architecturally and historically and as landmark feature.
- H** Outlying open fields containing historic earth / stone banked footpaths and surviving medieval strip fields.
- I** Area of St Nons of architectural, archaeological and landscape importance: great historic importance as birthplace of St David.
- J** Warpool Court Hotel of historic and architectural importance: together with Carn Warpool, forms significant landscape features when viewed from the north and west.
- K** Y Fagwr, outbuildings and walled garden of architectural / historic importance with open fields rising to Carn Warpool
- L** Lower Moor and Merry Vale of ecological / landscape importance, site of mill leat and mill both of historic / architectural / archaeological importance.
- M** Fine landscape backdrop to secluded Cathedral Close when viewed from the city itself: comprising of open fields with traditional farmstead (Penlan) the latter of architectural / historic importance.
- N** Open fields forming part of the backdrop to Cathedral Close when viewed from cemetery

**Graddfa** 0 300 600 m

**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**

Tyddewi

## **14 Y CAMAU NESAF**

- Mae APCAP wedi mabwysiadu'r Ddogfen Gynigion fel Canllaw Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol. Fe fydd yn cefnogi polisiau'r CDLI ac yn ystyriaethau cynllunio o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth Tyddewi.
- Cynigir bod y cynigion a geir yn y ddogfen hon yn cael eu rheoli a'u monitro'n barhaus, a hynny gan weithgor a enwebir gan Gyngor y Ddinas, a swyddogion y Parc Cenedlaethol, a hynny ddwywaith y flwyddyn (i ddechrau, o leiaf) gydag adroddiadau ar gynnydd ar gael i'r cyhoedd.

# 15 RHAGLEN Y CYNIGION AR GYFER ARDAL GADWRAETH TYDDEWI

Themâu (Offerynnau)	Partneriaid Potensial	Ar Waith	Corff Arweiniol	Amserlen				
				2011/2012	2012/2013	2013/2014	2014/2015	
<b>Adnoddau</b> Nawdd Cadwraeth – Grantiau Cadw Nawdd Cadwraeth Grantiau'r Bartneriaeth Cynllun Tref Hanesyddol (APCAP)	Cadw, perchnogion eiddo a hyrwyddwyr prosiectau APCAP, Cadw, CSP, WDA, BCC, perchnogion eiddo	Cyswilt parhaus gyda Cadw, perchnogion eiddo a hyrwyddwyr prosiectau Rheoli Partneriaeth Cynllun Tref Hanesyddol Tyddewi	APCAP APCAP / Cadw	██████████	██████████	██████████	██████████	
Nawdd sydd ddim yn Nawdd Cadwrae	CSP, ymgymeryddion statudol, WDA, BCC, perchnogion tir	Mynd at bartneriaid pwysig gyda'r nod o gytuno ar gytundebau gweithio Ymateb i fentrau cyllidwyr allanol	APCAP APCAP	██████████	██████████	██████████	██████████	
<b>Tir y Cyhoedd</b>	CSP, Asiantaeth yr Amgylchedd, BT, Cwmnïau Gweithredu Telegyfathrebu, Western Power, Transco, Dŵr Cymru, Hyder	Mynd at fudiadau perthnasol gyda'r nod o gytuno ar gytundebau gweithio Ymateb i fentrau mudiadau perthnasol	APCAP	██████████	██████████	██████████	██████████	
<b>Rheoli Traffig</b>	CSP, Cyngor Dinas Tyddewi, Awdurdod Heddlu Dyfed Powys	Datblygu Cynllun Rheoli Traffig i Dyddewi (CSP) Mynd at fudiadau perthnasol gyda'r nod o gytuno ar gytundebau gweithio Ymateb i fentrau mudiadau perthnasol	APCAP /PCC APCAP APCAP	██████████	██████████	██████████	██████████	
<b>Prosiectau Cymunedol</b>	Cyngor Dinas Tyddewi, grwpiau ac unigolion lleol, PLANED, CSP (UAC), PAVS	Mynd at fudiadau perthnasol i helpu'r gymuned i warchod a gwella'r Ardal Gadwraeth	APCAP	██████████	██████████	██████████	██████████	
<b>Ymwybyddiaeth</b>	Perchnogion eiddo, masnachwyr, ymgymeryddion statudol, cyrff a mudiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol	Cymorth ymatebol i brosiectau cymunedol sy'n ymwneud â gwarchod adeiladau Datblygu strategaeth gymunedol Gweithredu strategaeth gyfathrebu'n raddol	APCAP APCAP	██████████	██████████	██████████	██████████	
<b>Datblygiad</b>	Datblygwyr	Paratoi briffiau datblygu yn raddol Ymatebol (ceisiadau / ymholiadau cynllunio / Adeiladau Rhestredig)	APCAP APCAP	██████████	██████████	██████████	██████████	
<b>Rheolaeth</b> <b>Astudiaeth ac Ymchwil</b>	Datblygwyr, perchnogion eiddo Archaeoleg Cambria, Cadw, Comisiwn Henebion Brenhinol Cymru, cymdeithasau hanes lleol APCAP a Gweithgwr y Cyngor Dinas	Adolygiad o'r Ardal Gadwraeth Astudiaeth ac ymchwil barhaus Rheoli a monitro'r cynigion yn barhaus	APCAP APCAP / Gweithgwr y Cyngor Dinas	██████████	██████████	██████████	██████████	
<b>Adolygiad o Ffin yr Ardal Gadwraeth</b>	Y Cyhoedd	Adolygiad o'r Ddogfen Gynigion Adolygiad o ffin yr Ardal Gadwraeth	APCAP APCAP	██████████	██████████	██████████	██████████	

## 16 TALFYRIADAU A DDEFNYDDIWYD

AA	ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD (CYMRU)
CDLI	CYNLLUN DATBLYGU LLEOL
PAVS	PEMBROKESHIRE ASSOCIATION OF VOLUNTARY SERVICES
PAVS	CYMDEITHAS GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR BENFRO
CSP	CYNGOR SIR PENFRO
APCAP	AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO
PLANED	RHWYDWAITH GWEITHREDU LLEOL SIR BENFRO ER MENTER A DATBLYGU
SPAB	CYMDEITHAS DIOGELU ADEILADAU HYNAFOL
LICC	LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**ALLWEDD I FAP NODWEDDION ARDAL GADWRAETH TYDDEWI**

**ADEILADAU TIRNOD - cylch coch**

1. Llys yr Esgob
2. Eglwys Gadeiriol Tyddewi
3. Yr Hen Ysgol
4. Capel Annibynwyr Ebeneser
5. Cathedral Villas
6. Porth-y-twr
7. Y Deondy
8. Bwthyn-y-twr
9. Capel Presbyteraidd Tabernacl
10. Neuadd y Ddinas
11. Capel y Bedyddwyr Seion

**ADEILADAU O BWYSIGRWYDD LLEOL – cylch brown**

**Clos yr Eglwys Gadeiriol:**

- a. Y Llys (canoloesol)
- b. Yr Eglwys Gadeiriol (canoloesol, crefyddol)
- c. Y Deondy (crefyddol)
- d. Porth-y-Twr (canoloesol)
- e. Waliau'r Ddinas (canoloesol)

**Heol Fawr:**

- f. Neuadd y Ddinas (cymdeithasol)
- g. Rhifau 10-14 (pensaernïol)
- h. Rhifau 15 (pensaernïol)
- i. Rhifau 29 (pensaernïol)
- j. Rhifau 33-35 (pensaernïol)
- k. Rhifau 24 (pensaernïol)

**Heol y Bryn:**

- l. Rhifau33-39 (pensaernïol)

**Heol Newydd:**

- m. Rhifau 14-24 (pensaernïol)
- n. Rhifau 19-23 (pensaernïol)
- o. Rhifau 31-32 (pensaernïol)
- p. Capel Seion (crefyddol/pensaernïol)

**Heol Non:**

- q. Rhifau11-13 (pensaernïol)
- r. Rhifau 22-28 (pensaernïol)
- s. Rhifau 43-51 (pensaernïol/cymdeithasol)

**Y Cwcell:**

- t. Yr Hen Ysgol (cymdeithasol/pensaernïol)
- u. Y T Crwn (cymdeithasol/pensaernïol)
- v. Capel Ebeneser (crefyddol/pensaernïol)

**Y Pops:**

- w. Rhifau 5,7 (cymdeithasol/pensaernïol)

**Heol yr Afr:**

- x. Capel Tabernacl (crefyddol/pensaernïol)
- y. Rhifau 19,21 (pensaernïol)
- z. Hen Capel Bethel (cymdeithasol/pensaernïol)

**Catherine Street:**

- aa. Rhifau 20,22 (pensaernïol/cymdeithasol)
- bb. Priskilly Terrace – St Non Hotel (rhan ddwyreiniol) (pensaernïol)

**NODWEDDION LLEOL – cylch porffor, geiriau gwyn**

- 1. Rownd Cocyn
- 2. Croes y Ddinas
- 3. Baromedr tu allan i D 'r Llys (Court House)
- 4. Corneli onglog Rhifau 7,10 Heol y Bryn
- 5. Cwter Cobl, Neuadd y Deondy
- 6. Palmant Cobl, Pen-y-ffos
- 7. Ymylon cobl, Clos yr Eglwys Gadeiriol
- 8. Colofn dd r, Neuadd y Clwysty
- 9. Llwybr Cerrig Pitsh, Clos yr Eglwys Gadeiriol
- 10. Clawdd Sir Benfro, Penrhiw

**GOLYGFYDD PWYSIG – saeth ddu, geiriau gwyn**

- 1. Golygfa o Fryn y Deondy dros Merrivale
- 2. Golygfeydd o Heol y Bryn tuag at Clegyr Boia tuag at Warpool Court, a hefyd golygfeydd pell o Garn Llidi
- 3. Yr olygfa i lawr Heol yr Afr tuag at Glegyr Boia a Phenlan
- 4. Yr olygfa o Heol y Bryn tuag at frigiadau caregog a Chlegyr Boia
- 5. Yr olygfa i fyny Heol y Bryn tuag at y coed yn y Grove
- 6. Golygfeydd o'r Grove tuag at Twr-y- felin
- 7. Yr olygfa o Sgwâr y Groes dros d r yr Eglwys Gadeiriol tuag at Benlan a Chlegyr Boia
- 8. Golygfeydd hyfryd dros y dirwedd ddramatig yn y pellter
- 9. Yr olygfa o'r Cwcell dros Glos yr Eglwys Gadeiriol
- 10. Golygfeydd helaeth dros fynwent yr Eglwys Gadeiriol tuag at Garn Llidi, Penberri a Threleddy
- 11. Golygfeydd ar draws Clos yr Eglwys Gadeiriol sy'n lled-wledig
- 12. Golygfeydd o fynwent y ddinas ar draws Clos yr Eglwys Gadeiriol a'r ddinas
- 13. Golygfeydd gwledig helaeth ar draws Penrhyn Tyddewi
- 14. Yr olygfa tua'r gogledd i fyny Dyffryn deniadol Alun

**ALLWEDD I GIPOLWG PWYSIG O WRTHYCH/TIRNOD/MAN DIDDORDEB**

- 1. Yr olygfa o Merrivale tuag at Lys yr Esgob a'r Eglwys Gadeiriol
- 2. Yr olygfa o Catherine Street tuag at yr Eglwys Gadeiriol a'r Clos
- 3. Cipolwg deniadol o'r Eglwys Gadeiriol rhwng tai
- 4. Yr olygfa dros Heol yr Afr tuag at d r yr Eglwys Gadeiriol
- 5. Yr olygfa o Mitre Lane wedi'i gau gan y strydlun traddodiadol
- 6. Golygfeydd o Glos yr Eglwys Gadeiriol o'r Deondy
- 7. Golygfa o'r 39 o risiau dros Glos yr Eglwys Gadeiriol
- 8. Golygfa o'r Eglwys Gadeiriol o bont Pen-y-ffos
- 9. Golygfa o Wal y Clos a Neuadd y Clwysty
- 10. Golygfa ar draws dolydd afon tuag at Glos yr Eglwys Gadeiriol
- 11. Golygfeydd ar hyd lonydd lled-wledig o Bant-y-penyd
- 12. Golygfa o'r Cwcell tuag at Neuadd y Clwysty
- 13. Golygfa o'r Cwcell ar draws cae tuag at Heol Non
- 14. Golygfa o Heol Non wedi'i chau gan Gapel Ebeneser
- 15. Golygfa trwy fwch dros Glos yr Eglwys Gadeiriol

**CYFLEOEDD I WELLA BLAENGWRT/CWRTIL/TALCEN – tôn gwyrdd****Heol Fawr**

- 1. Rhifau 44-46
- 2. Rhifau 10-16
- 3. Rhifau 6-8

**Heol Newydd**

- 4. Yr Hen Bopty
- 5. Rhifau 35-37

### **Peters Lane**

6. Arfon Villa

### **Heol Non**

- 7. Royal Terrace
- 8. Rhif 18
- 9. Rhifau 11-13
- 10. Rhif 7
- 11. Rhifau 9-17

### **Sgwâr y Groes**

12. Menai

### **Heol yr Afr**

- 13. Capel Tabernacl
- 14. Rhifau 15-17
- 15. Rhifau 25-35
- 16. Rhifau 34-40

### **Catherine Street**

- 17. Rhifau 51-56
- 18. Rhifau 58-60
- 19. Rhifau 63-65
- 20. Gwesty St Non's
- 21. Rhifau 20-22

### **GOFODAU AGORED PWYSIG – geiriau du**

- i. Clos yr Eglwys Gadeiriol
- ii. Gorllewin Dyffryn Alun a'r gorlifdir
- iii. Dwyrain Dyffryn Alun gan gynnwys dolydd afonydd a gorlifdir
- iv. Y tir i'r dwyrain o Heol Non
- v. Y tir i'r gogledd o Rif 12 Catherine's Street
- vi. Gardd Rhif 10 Heol y Bryn
- vii. Gardd Goffa, Sgwâr y Groes
- viii. Gardd Gwesty'r Old Cross Hotel
- ix. Mynwent Capel Seion
- x. Gardd y Feithrinfa, Heol y Bryn
- xi. Yr ardal i'r Gorllewin o'r Ganolfan Groeso

### **COED SY'N BWYSIG I LEOLIAD YR ARDAL GADWRAETH**

- a. Stribed o Sycamorwydd, y Grove
- b. Sycamorwydd Lled-aeddfed, Canolfan Groeso Tyddewi
- c. Sycamorwydd a chlawdd, Nursery Garden, Heol y Bryn
- d. Sycamorwydd, coed castan a llwyf, Sgwâr y Groes/Old Cross Hotel
- e. Sycamorwydd, Heol y Bryn
- f. Sycamorwydd, Priskilly Terrace
- g. Sycamorwydd ar hyd Feidr Efengyl
- h. Sycamorwydd wrth ymyl Afon Alun, Merrivale
- i. Sycamorwydd ar ymyl yr Afon Alun, Clos yr Eglwys Gadeiriol
- j. Ardal o .....(goed llwyf?) Mynwent yr Eglwys Gadeiriol
- k. Sycamorwydd ar ochr orllewinol Dyffryn Alun o Lys yr Esgob
- l. Sycamorwydd ar ymyl Wal y Clos gyferbyn â'r Ganoniaeth
- m. Sycamorwydd yng ngardd Treasures House
- n. Ardal o sycamorwydd i'r gogledd o fynwent yr Eglwys Gadeiriol
- o. Sycamorwydd yn y cae i'r de o'r Cwccwll ac ar safle Coleg y Ficeriaid
- p. Sycamorwydd ar ochr ddwyreiniol Dyffryn Alun
- q. Sycamorwydd ar ran ogleddol Dyffryn Alun ger Felin Dan-y-rhiw

## CYFLEOEDD I WELLA BLAENGWRT/CWRTIL/TALCEN – tôn gwyrdd

### Heol Fawr

- Gwesty'r Grove
- Rhifau 37-41
- Rhif 31

### Heol Newydd

- Iard wrth gefn Banc Barclays
- Rhifau 19-23
- Rhif 24

### Peter's Lane

- Garejys cadw

### Sgwâr y Groes

- Rhif 1

### Heol yr Afr

- Rhif 10
- Tafarn y Farmer's Arms
- Rhifau 22-26
- Rhif 25
- Rhifau 27-29
- Rhif 33

### Catherine Street

- Rhif 1 (warws))
- St Non's Hotel

### Heol y Bryn

- Cefn Rhif 20 Heol Fawr
- Cefn Rhifau 12-14 Heol Fawr
- Cefn Rhif 6 Heol Fawr
- Cefn Rhif 2 Heol Fawr

## CYFLEOEDD I WELLA ADEILADAU – cylch brown

### Heol Fawr

1. Rhif 40
2. Rhif 31
3. Rhif 29
4. Rhif 30-34
5. Rhif 28
6. Rhif 2 (cefn)

### Heol Newydd

7. Rhif 30
8. Rhif 11
9. Rhif 9 (adeilad allanol)

### Sgwâr y Groes

10. Rhif 1

### Peter's Lane

11. Garejys cadw

### Heol Non

12. Rhif 38
13. Rhifau 23-37

14. Rhif 21

**Heol yr Afr**

15. Rhif 10

16. Rhif 39

**Catherine Street**

17. Rhif 1 (warws)

18. Gwesty St Non's

**Clos yr Eglwys Gadeiriol**

19. Claddgelloedd Neuadd y Clwysty